

SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU

GWYBODAETH AM DDIOGELWCH I HELPŪ YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU YSGOL AC ASESU RISGIAU

Cofiwch:

- fod ysgolion yn gyfrifol am wneud eu hasesiadau eu hunain o'r risgiau, ac
- na allwn ni lenwi, dilysu na llofnodi unrhyw ran o ffurflenni asesu risgiau ysgolion am nad ni sy'n gyfrifol amdany'n nhw.

Rydym yn argymell bod athrawon yn cyfeirio at ddogfen y DfES '*Health and Safety of Pupils/Young People on Educational Visits - A Good Practice Guide, 1988*'. <http://www.teachernet.gov.uk/wholeschool/healthandsafety/visits>. Mae hyn yn egluro mai cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr grwpiau yw llenwi asesiadau risg cyn mynd ar ymweliad.

Rhywbeth i'ch helpu chi i baratoi yw'r wybodaeth yr ydym yn ei chynnig am ddiogelwch, ac nid yw'n cymryd lle'r angen i chi wneud eich asesiad eich hun o risg sy'n benodol i anghenion eich grŵp gan ddilyn y canllawiau swyddogol a pholisïau'r ysgol/AALI.

Mae ein gwybodaeth am ddiogelwch yn amlinellu'r mesurau rheoli y mae'r Amgueddfa'n eu dilyn i osgoi neu leihau risgiau, ynghyd â'r rheolau ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n ymweld. Bydd eich asesiad o risg yn cymryd i ystyriaeth oedran, gallu ac anghenion penodol eich grŵp, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch cludiant neu'r tywydd adeg eich ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth yr Amgueddfa am ddiogelwch.

Rydym yn argymell eich bod chi'n rhoi copi o'r asesiad risg/gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch i'r holl athrawon/goruchwylwyr ar yr ymweliad.

Yn olaf, rydym wedi cynnwys dyfyniadau o Bolisi Amddiffyn Plant yr Amgueddfa ar ddiwedd y ddogfen er gwybodaeth.

Datganiad Diogelwch

Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn derbyn ei chyfrifoldebau llawn o dan y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau ysgrifenedig o risg a wnaed mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl nad ydynt yn aelodau o staff (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.

Gallwn eich sicrhau bod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydym am sicrhau y byddwch yn mwynhau ymweliad hwyliog ac addysgiadol.

Mae gennym bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud y gwaith. Fodd bynnag, mae natur y safle, gyda'i adeiladau hanesyddol, yn golygu bod angen i ymwelwyr gymryd mwy o ofal eu hunain.

Sylwer: mae'r Amgueddfa wedi derbyn arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i wella a datblygu'r adeiladau/cyfleusterau. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac o ganlyniad gall fod dargyfeiriadau dros-dro i wahanol rannau o'r safle a gwaith sylweddol gyda chynnydd mewn traffig a pheiriannau. Mae'n bwysig iawn fod grwpiau yn dilyn arwyddion newydd ac ddim yn mynd mewn i'r safleoedd adeiladu. Am fwy o wybodaeth cyn eich ymweliad, cysylltwch â'r Adran Addysg ar (029) 2057 3424.

Gofynnir yn garedig i athrawon a staff eraill yr ysgol weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru trwy oruchwylio'r plant sydd yn eu gofal ar y safle.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r disgyblion drwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys dros amser cinio.

Mae'r Amgueddfa ar safle o dros 100 acer, felly rydym yn argymhell yn gryf bod arweinwyr grwpiau'n dod ar ymweliad i baratoi er mwyn asesu unrhyw risgiau posibl i'r grŵp. Gallwch drafod hyn wrth archebu eich ymweliad.

Cefndir

Profiad

Agorodd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i'r cyhoedd ym 1948. Ers hynny, mae'r amgueddfa wedi sefydlu'i hun yn un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop ac atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru.

Manylion y lleoliad

Mae'r Amgueddfa'n arddangos sut y bu pobl Cymru'n byw, gweithio a hamddena o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw.

Niferoedd ymwelwyr

Rydym yn croesawu tua 600,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae tua 20% o'r rhain yn dod mewn grwpiau addysg ffurfiol.

Manylion cyswllt

I drefnu ymweliad, trafod manylion ymweliad neu i drefnu ymweliad i baratoi, cysylltwch â'r Adran Addysg rhwng 8.30am a 4.30pm ar (029) 2057 3403 neu (029) 2057 3418 neu (029) 2057 3424.
Os ydych yn poeni am unrhyw beth ar ôl eich ymweliad neu os cawsoch chi broblemau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch aelodau o'r grŵp, byddwn ni'n hapus i drafod y materion hyn gyda chi.

Gwybodaeth Gyffredinol

Anifeiliaid / anifeiliaid yn baeddu mewn manau cyhoeddus

Croeso i chi ddod â chŵn i'r safle ond rhaid iddynt fod ar dennyn drwy'r adeg, ac ni chânt fynd mewn i'r adeiladau. Mae disgwyl i berchnogion glirio baw eu cŵn.

Rydym yn croesawu cŵn tywys gydag ymwelwyr â nam ar eu golwg neu ar eu clyw.

Systemau cyfathrebu

Mae cynorthwywyr amgueddfa yn cario systemau radio dwy ffordd.

Hanes troseddol

Rydym wedi cynnal archwiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol (NIS) ar bob aelod o staff. Mae'r archwiliadau cydnabyddedig hyn yn arbennig ar gyfer y sector amgueddfeydd ac yn gyfystyr ag archwiliad sylfaenol y DBS.

Mae staff yr Amgueddfa sy'n dod i gysylltiad rheolaidd a/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn derbyn archwiliadau trylwyr y DBS.

Ardaloedd tu allan	<p>Rhaid i blant gael eu goruchwyllo drwy'r amser. Mae dringo coed a mynd mewn i'r pyllau a'r llynnoedd yn beryglus iawn, ac wedi'i wahardd. Gofynnwn i chi bwysleisio hyn i'ch disgyblion os oes angen.</p>
Clirio'r safle mewn argyfwng	<p>Mae trefniadau ar waith i glirio'r safle mewn argyfwng. Mae holl staff y safle'n gyfarwydd â'r trefniadau ac yn eu hymarfer yn gyson.</p> <p>Mewn argyfwng, dilynwch gyfarwyddiadau staff yr Amgueddfa.</p>
Cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig	<p>Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn ceisio darparu ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni ymlaen llaw i holi pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig.</p> <p>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grwpiau sicrhau eu bod nhw'n gwneud trefniadau addas i oruchwyllo a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.</p> <p>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan www.amgueddfacymru.ac.uk neu drwy gysylltu ag adran addysg Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ar (029) 2057 3403/3418 neu 3424.</p> <p><u>Nam corfforol</u> Mae modd mynd â chadair olwyn i'r rhan fwyaf o lefydd. Fodd bynnag, mae natur hanesyddol rhai o'r adeiladau yn gwneud mynediad yn anodd.</p> <p><u>Ochr y Castell</u> Mae'r ardal hon yn serth mewn manau a gall fod yn anodd i rai defnyddwyr cadair olwyr a'u cynorthwywyr. Mae'r llwybrau haws wedi'u nodi ar arwyddion.</p> <p><u>Sefydliad Gweithwyr Oakdale (rhif 22 ar y map).</u> Mae rampiau symudol a lifft ar gael. Mae cerbyd modur ar gael i gludo hyd at 5 ymwelydd anabl o gwmpas y safle. Gan fod angen gyrrwr wedi'i hyfforddi, rydym yn gofyn i chi archebu hyn 2 wythnos ymlaen llaw drwy ffonio (029) 2057 3500 a gofyn am Wasanaethau Ymwelwyr.</p> <p><u>Nam ar y golwg</u> Mae aelod o staff yn y rhan fwyaf o adeiladau, ac mae nifer o arddangosiadau a chrefftau o gwmpas y safle. Bydd ein staff yn hapus i esbonio'r technegau a'r sgiliau hyn.</p> <p><u>Nam ar y clyw</u> Mae'r Amgueddfa yn croesawu cŵn sy'n tywys ymwelwyr byddar neu ddall.</p>

Cymorth cyntaf	Os oes angen cymorth cyntaf arnoch chi, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa fydd yn galw am gymorth rhywun sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.
Gweithgareddau yng Nghwmni Dehonglydd	Bydd yr Amgueddfa wedi asesu risgiau'r gweithgaredd o dan sylw ac yn eich hysbysu ar lafar o'r risgiau hyn a sut y cânt eu rheoli.
Yswiriant / Atebolrwydd Cyhoeddus	Mae gan yr Amgueddfa yswiriant masnachol am gyfrifoldeb cyhoeddus (amgaeir copi).

Plant coll	Oherwydd maint a strwythur yr Amgueddfa, mae perygl i blant fynd ar goll os ydynt yn crwydro oddi wrth eu harweinydd grŵp. Dywedwch wrth y plant am siarad ag un o'r cynorthwyr neu staff yr Amgueddfa os ydynt ar goll. Os bydd arweinydd grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll, dylent ddweud wrth un o'r cynorthwyr neu staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd y camau priodol.
------------	---

<p>Uchafswm niferoedd grwpiau / Goruchwylio</p>	<p>Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn goruchwylio'ch disgyblion drwy'r amser.</p> <p>Rydym yn gofyn eich bod chi'n cadw at y cyfraddau canlynol:</p> <p>Blynyddoedd ysgol 1 i 3 (oed 5 i 8): 1 oedolyn cyfrifol: 5 plentyn</p> <p>Blynyddoedd ysgol 4 i 6 (oed 8 i 11): 1 oedolyn cyfrifol: 10-15 plentyn</p> <p>Blynyddoedd ysgol 7 ac uwch (oed uwchradd 11+): 1 oedolyn cyfrifol: 15-20 plentyn</p> <p>Dyma'r cyfraddau y mae'r DfES yn eu hargymell. Rhaid i arweinwyr grwpiau asesu'r risgiau ac ystyried lefel ddiogel o oruchwyliaeth ar gyfer eu grŵp. Rhaid archebu rhai adeiladau ymlaen llaw.</p> <p>Yr uchafswm arferol ar gyfer nifer y bobl yn yr adeiladau canlynol yw 30 person bob hanner awr, oni bai fod cais yn cael ei wneud am gyfnod hirach:</p> <p>Tai teras Rhyd-y-car, Ysgol Maestir ac Eglwys Sant Teilo.</p> <p>Mae'n syniad da rhannu criw mawr yn grwpiau llai gan mai nifer cyfyngedig o ymwelwyr gaiff fynd mewn i'r adeiladau.</p>
---	---

<p>Anghenion meddygol</p>	<p>Dylai arweinwyr grwpiau neu ysgolion roi gwybod i staff adran addysg yr Amgueddfa os oes gan unrhyw ddisgybl anghenion penodedig neu anhwylder meddygol penodol. Bydd yn rhaid i ni ystyried hyn a thrafod trefniadau brys gyda chi.</p> <p>Os yw'n ddiogel, byddwn yn ceisio cynnwys disgyblion ag anhwylderau penodedig neu ddifrifol yn y gweithgareddau a gynigir.</p> <p><u>Asthma</u> –</p> <p>Ychydig iawn o awyru sydd mewn rhai adeiladau a gall fod ychydig yn fyglyd. Os ydych yn bwriadu cymryd rhan mewn gweithgaredd yn un o'r adeiladau hyn, gofynnwch am gyngor wrth archebu. Caiff y tanau eu cynnau cyn i'r Amgueddfa agor, fel arfer. Gallai fod yn syniad da i blant sydd ag asthma gadw'n glir o anifeiliaid.</p> <p>Rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion arbennig eraill cyn eich ymweliad.</p>
<p>Ffwng/planhigion gwenwynig</p>	<p>Dylai ysgolion gyngori plant na ddylid hel na bwyta unrhyw blanhigion, blodau, aeron na chnau o fewn tiroedd yr Amgueddfa.</p>
<p>Ymddygiad ymwelwyr</p>	<p>Ni ddylai ymwelwyr :</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Fynd i fannau sydd ar gau i'r cyhoedd <input type="checkbox"/> Ymddwyn yn afreolus <input type="checkbox"/> Cyffwrdd neu ddringo ar unrhyw beiriannau <p>Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu ymwelwyr sy'n ymddwyn yn sarhaus neu'n afresymol adael y safle.</p> <p>Rhaid i unrhyw grwpiau o fyfyrwyr o dan 16 oed fod o dan oruchwyliaeth drwy'r adeg. Yr ysgol sy'n gyfrifol amdanynt drwy gydol yr ymweliad.</p> <p>Gallwn wrthod mynediad i rai adeiladau i grwpiau sydd heb oruchwylwyr.</p>
<p>Map sgematig</p>	<p>Mae map o'r safle wedi'i gynnwys yn y daflen 'Cynllunio eich Ymweliad'. Gwnewch gopiâu o'r map ar gyfer eich holl arweinwyr grŵp.</p>
<p>Archwiliadau Safle o'r Cyfleusterau / Ardaloedd Adnabod staff y safle</p>	<p>Mae staff yn archwilio'r cyfleusterau'n gyson ac yn cofnodi eu canfyddiadau.</p> <p>Mae holl staff yr Amgueddfa'n gwisgo bathodynnau adnabod. Croeso i chi fynd atyn nhw os oes rhywbeth yn eich poeni. Byddant yn gallu eich helpu neu eich cyfeirio at y lle priodol i gael cymorth.</p>
<p>Traffig</p>	<p>Er ein bod yn cadw lefelau traffig yn isel o fewn y safle, bydd rhai mathau o gerbyd angen mynediad.</p> <p><u>Trên bach</u></p> <p>Mae trê'n bach yn rhedeg rhwng y Pasg a mis Hydref, ac mae asesiad risg wedi ei gynnal o ran ei ddefnydd. Mae'r trê'n yn rhedeg ar lwybrau penodedig, gan stopio mewn sawl lle. Mae</p>

taith ar y trêrn yn para tua awr.
Nid yw'r trêrn yn mynd yn gyflymach na rhyw 5-10 milltir yr awr.

Maes Parcio

Rhaid cymryd gofal wrth groesi'r maes parcio. Defnyddiwch y llwybr i gerddwyr o'r prif faes parcio bysiau. Mae'n saffach i aelodau'r grŵp aros ar y bws tan mae'r arweinydd wedi cofrestru.

Amddiffyn rhag y tywydd / Diogelwch yn yr haul / Dillad	Bydd ymwelwyr yn yr awyr agored y rhan fwyaf o'r amser, felly dewch â dillad/cyfarpar addas ar gyfer pob math o dywydd.																																
Cyfleusterau lles	<p><u>Ardaloedd dan do / ardaloedd bwyta</u></p> <p><input type="checkbox"/> Wrth i chi gyrraedd, byddwn yn rhoi slot 20 munud i chi ar gyfer yr ardal fwyta dan do.</p> <p><input type="checkbox"/> Mae ardaloedd picnic awyr agored.</p> <p><u>Toiledau</u></p> <p><input type="checkbox"/> Mae toiledau ar draws y safle, ac maent wedi eu nodi ar y map.</p> <p><input type="checkbox"/> Mae cyfleusterau newid babanod a thoiledau anabl hefyd ar gael.</p>																																
Adeiladau lle nad oes staff yn bresennol	<p>Isod mae rhestr o adeiladau sydd heb staff ynddynt, ynghyd â'r adeilad agosaf gyda radio symudol. Mae'r rhifau'n cyfeirio at y llawlyfr.</p> <table> <thead> <tr> <th><u>Adeilad</u></th> <th>Lleoliad Agosaf</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><input type="checkbox"/> Gwenynfa (Rhif 3)</td> <td>Kennixton (Rhif 2)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Twlc mochyn (Rhif 4)</td> <td>Melin Flawd (Rhif 5)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Hendre'r Ywydd Uchaf (Rhif 7)</td> <td></td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Nant Wallter (Rhif 8)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Talwrn (Rhif 14)</td> <td>Siop Gwalia (Rhif 16)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Cofeb Ryfel (Rhif 20)</td> <td>Oakdale (Rhif 22)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Melin Eithin (Rhif 29)</td> <td>Tŷ'r Masnachwr</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Tuduraidd (Rhif 30)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Capel Pen-rhiw (Rhif 45)</td> <td>Abernodwydd/ Prif Adeilad (Rhif 44.1)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Ysgubor Stryd Lydan (Rhif 46)</td> <td></td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Melin Wlân (Rhif 48)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Hafdy (Rhif 40)</td> <td>Melin Wlân (Rhif 48)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Melin Seidr (Rhif 52)</td> <td>Castell (Rhif 58)</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/> Bryncastell (Rhif 59)</td> <td></td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Castell (Rhif 58)</td> </tr> </tbody> </table>	<u>Adeilad</u>	Lleoliad Agosaf	<input type="checkbox"/> Gwenynfa (Rhif 3)	Kennixton (Rhif 2)	<input type="checkbox"/> Twlc mochyn (Rhif 4)	Melin Flawd (Rhif 5)	<input type="checkbox"/> Hendre'r Ywydd Uchaf (Rhif 7)		<input type="checkbox"/>	Nant Wallter (Rhif 8)	<input type="checkbox"/> Talwrn (Rhif 14)	Siop Gwalia (Rhif 16)	<input type="checkbox"/> Cofeb Ryfel (Rhif 20)	Oakdale (Rhif 22)	<input type="checkbox"/> Melin Eithin (Rhif 29)	Tŷ'r Masnachwr	<input type="checkbox"/>	Tuduraidd (Rhif 30)	<input type="checkbox"/> Capel Pen-rhiw (Rhif 45)	Abernodwydd/ Prif Adeilad (Rhif 44.1)	<input type="checkbox"/> Ysgubor Stryd Lydan (Rhif 46)		<input type="checkbox"/>	Melin Wlân (Rhif 48)	<input type="checkbox"/> Hafdy (Rhif 40)	Melin Wlân (Rhif 48)	<input type="checkbox"/> Melin Seidr (Rhif 52)	Castell (Rhif 58)	<input type="checkbox"/> Bryncastell (Rhif 59)		<input type="checkbox"/>	Castell (Rhif 58)
<u>Adeilad</u>	Lleoliad Agosaf																																
<input type="checkbox"/> Gwenynfa (Rhif 3)	Kennixton (Rhif 2)																																
<input type="checkbox"/> Twlc mochyn (Rhif 4)	Melin Flawd (Rhif 5)																																
<input type="checkbox"/> Hendre'r Ywydd Uchaf (Rhif 7)																																	
<input type="checkbox"/>	Nant Wallter (Rhif 8)																																
<input type="checkbox"/> Talwrn (Rhif 14)	Siop Gwalia (Rhif 16)																																
<input type="checkbox"/> Cofeb Ryfel (Rhif 20)	Oakdale (Rhif 22)																																
<input type="checkbox"/> Melin Eithin (Rhif 29)	Tŷ'r Masnachwr																																
<input type="checkbox"/>	Tuduraidd (Rhif 30)																																
<input type="checkbox"/> Capel Pen-rhiw (Rhif 45)	Abernodwydd/ Prif Adeilad (Rhif 44.1)																																
<input type="checkbox"/> Ysgubor Stryd Lydan (Rhif 46)																																	
<input type="checkbox"/>	Melin Wlân (Rhif 48)																																
<input type="checkbox"/> Hafdy (Rhif 40)	Melin Wlân (Rhif 48)																																
<input type="checkbox"/> Melin Seidr (Rhif 52)	Castell (Rhif 58)																																
<input type="checkbox"/> Bryncastell (Rhif 59)																																	
<input type="checkbox"/>	Castell (Rhif 58)																																

Ardaloedd Risg Uwch	Mae llynnoedd pysgod yn yr Amgueddfa, wedi'u lleoli islaw terasau'r Castell. Rhaid bod yn ofalus iawn a gofalu bod disgyblion yn cael eu goruchwyllo'n agos yn yr ardal hon. Mae canllaw wrth y pyllau, ond dim ond ar hyd y llwybrau penodedig. Mae bwi achub ar gyfer argyfyngau.
Dŵr	

Adeiladau	<p>Drwy gydol y flwyddyn, mae gan y rhan fwyaf o adeiladau danau agored. Mewn rhai adeiladau, fel y Felin Flawd a'r Felin Wlân, mae peirianwaith gwreiddiol yn dal i gael ei ddefnyddio.</p> <p>Dylid cymryd gofal yn yr ardaloedd lle mae grisiau serth, llethrau, pyllau a choed.</p> <p>Rhaid cymryd gofal mawr o blant os ydych yn ymweld â'r Tanerdy, oherwydd grisiau serth, dŵr a phyllau calch.</p>
Anifeiliaid byw	<p>☐ Ni ddylai ymwelwyr gyffwrdd na bwydo unrhyw un o'r anifeiliaid ar y safle er lles y cyhoedd ac anifeiliaid,</p> <p>Rydym yn atgoffa pob ymwelydd i olchi eu dwylo os dônt i gysylltiad ag unrhyw un o'r anifeiliaid. Mae cyfarpar golchi dwylo ar gael yn y toiledau,</p> <p>☐ Dylai dioddefwyr asthma neu unrhyw un sydd ag alergedd i anifeiliaid gymryd gofal priodol.</p>
Amgylchiadau arbennig	<p>Os oes unrhyw wybodaeth neu anghenion sydd heb eu nodi uchod, cysylltwch â'r adran addysg yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i drafod.</p>
Adolygu	<p>Caiff y ddogfen yma a'r wybodaeth gysylltiedig am ddiogelwch ei diweddarau'n gyson.</p>

Ionawr 2013

AMDDIFFYN PLANT AR SAFLEOEDD AMGUEDDFA Cymru

Mae ein Polisi Amddiffyn Plant llawn ar y wefan o dan Amdanom Ni/Strategaeth a Pholisi. Darllenwch y dyfyniadau hyn yn ofalus cyn eich ymweliad.

Cyfrifoldebau Arweinwyr/Athrawon wrth ymweld â'r Amgueddfa

Mae Amgueddfa Cymru am sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr Amgueddfa. Yn ogystal â dyletswyddau'r Amgueddfa, rydym yn gofyn bod arweinwyr/athrawon grwpiau yn cyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain.

Yn benodol, dylai'r holl arweinwyr/athrawon:

- Sicrhau eu bod nhw'n goruchwylio'r plant/pobl ifanc drwy'r amser
- Cysylltu ag aelod o staff yn achos damwain er mwyn sicrhau bod Trefn Argyfwng Staff Amgueddfa Cymru yn cael ei dilyn
- Cysylltu ag aelod o staff os oes plentyn ar goll er mwyn dilyn trefn yr Amgueddfa
- Sicrhau nad oes ganddynt ddiodydd meddwol na chyffuriau anghyfreithlon ac nad ydyn nhw'n eu defnyddio nac yn ysmegu ar dir yr Amgueddfa
- Peidio â cham-drin unrhyw blentyn/person ifanc ar lafar nac yn gorfforol
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer y grŵp a'r arweinydd
- Dweud wrth y grŵp sut i ymddwyn yn safleoedd Amgueddfa Cymru
- Dilyn Trefniadau Tân Amgueddfa Cymru

Arweinwyr/athrawon sy'n bennaf gyfrifol am les y plant sydd yn eu gofal drwy'r amser. Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r arweinydd/athro cyfrifol am unrhyw bryderon (oni bai mai dyna'r person sy'n achosi pryder i ni) ac yn cyfeirio'r mater at yr ysgol/sefydliad wedyn. Caiff pryderon am ymddygiad yr arweinydd/athro eu cyfeirio'n syth at yr ysgol/sefydliad ac efallai at yr heddlu hefyd.

Ymddygiad grwpiau yn yr Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa am i'w holl ymwelwyr fwynhau eu hamser gyda ni. Felly rydym yn disgwyl i bob ymwelydd ymddwyn yn gwrtais, a dangos parch at eraill ac at eiddo'r Amgueddfa bob amser.

Ni ddylai arweinwyr grwpiau adael i neb yn y grŵp:

- Ymddwyn mewn ffordd fygythiol, ymosodol neu dreisgar
- Bwlio (ar lafar neu'n gorfforol)
- Gwneud sylwadau rhywiol, hiliol neu sylwadau difriol eraill am unrhyw berson neu grŵp arall
- Difrodi eiddo neu arddangosfeydd yr Amgueddfa
- Gadael sbwriel ar dir yr Amgueddfa.

CONFIRMATION OF INSURANCE

27 November 2017

TO WHOM IT MAY CONCERN

National Museum of Wales &/or NMGW Enterprises Ltd

We act as Insurance Brokers for the above named Insured and write to confirm that the following cover is in force.

Employer's Liability Cover applicable in respect of Volunteers
Insurer: Chubb Insurance Company
Policy Number: UKMSTC92060/B07972129952
Limit of Indemnity: £10,000,000 any one claim
Renewal Date: 23 November 2018

Public Liability
Insurer: Chubb Insurance Company/CNA (Cobra GAL Ltd)
Policy Number: UKMSTC92060/B07972129952
Limit of Indemnity: £20,000,000 any one claim
Renewal Date: 23 November 2018

Products Liability
Insurer: Chubb Insurance Company/CNA (Cobra GAL Ltd)
Policy Number: UKMSTC92060/B07972129952
Limit of Indemnity: £20,000,000 in the aggregate during the period of Insurance
Renewal Date: 23 November 2018

This document is provided for information only. It does not make the person or organisation to whom it has been issued an additional insured, nor does it modify in any way the above policies. Any amendment can only be effected by specific endorsement.

No obligation is accepted by Insurers or the undersigned to inform details of any amendments to the above policies subsequent to the date of issue of this document.

We will be pleased to clarify any points arising.

Yours faithfully

E L Bodsworth

Emma Bodsworth BA (Hons) ACII
Chartered Insurance Broker

Direct Dial: 01223 445407
Email: emmalb@s-tech.co.uk